

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin
2018 - 2033

Aseiad Covid-19

(Tachwedd 2020)



Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin

Covid-19: Asesiad o'r Sail Tystiolaeth, Strategaeth a Pholisïau

1. Cefndir

1.1 Ar ddiwedd Ionawr 2020 cyhoeddwyd fod yr achosion o Coronafeirws yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bwys rhyngwladol (PHEIC) ac wedi hynny gwelwyd ei effaith yn lledu ar draws cymdeithasau'r byd ac ar hyd a lled ein cymunedau.

1.2 Wrth ymateb i dwf y pandemig penderfynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin ar y 18fed Mawrth 2020 i atal y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd democrataidd, ac ar y 19eg Mawrth penderfynwyd cau adeiladau gweinyddol yr Awdurdod.

1.3 Ar y 23ain Mawrth 2020 cyflwynodd Llywodraeth y DU "gyfnod clo" llawn i atal lledaeniad y feirws. Yn y misoedd ers hynny gwelsom nid yn unig golli bywyd trasig ond effeithiau ar sut mae ein pobl, busnesau, sefydliadau a chymunedau yn ymddwyn a rhyngweithio ar lefel economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

1.4 Ar y 7fed Gorffennaf 2020 danfonodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol llythyr at Arweinyddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol. Yn y llythyr hwn ail-adroddodd y Gweinidog sut roedd cynlluniau datblygu ystwyth yn gonglfaen y system gynllunio. Yn hynny o beth mae'r llythyr yn cyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i fyfrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac i ystyried y goblygiadau i CDLlau oedd yn cael eu hadolygu neu eu gweithredu. Dylai'r CDLlau hynny sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, na chyflwynwyd mohonynt i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harchwilio, gynnal asesiad o'r sail tystiolaeth, strategaeth a pholisïau o ran sensitifrwyd i ganlyniadau'r pandemig.

1.5 Dylid nodi, adeg ysgrifennu, fod CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn un o'r CDLlau hynny oedd yn cael eu hadolygu cyn ei gyflwyno i'w archwilio.

1.6 Dylid cyflwyno'r asesiad i Lywodraeth Cymru gan ofyn am ymestyn Cytundebau Cyflawni (CC).

Adeiladu Lleoedd Gwell, Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair, Creu Lleoedd a Covid-19

1.7 Yn dilyn llythyr y gweinidogion cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell, Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair, Creu Lleoedd ac adfer wedi Covid-19 (Gorffennaf 2020). Mae'r ddogfen yn amlinellu blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru fydd yn cynorthwyo gyda gweithredu yn y cyfnod ail-sefydlu wedi argyfwng pandemig Covid-19.

1.8 Mae'r ddogfen hon yn nodi fod gan gynlluniau datblygu ran ganolog yn ymateb i Covid-19 wrth gynllunio'n effeithiol ar gyfer argyfyngau i'r dyfodol a chymryd golwg hirdymor er mwyn gwella iechyd a llesiant i bawb. Wrth wneud hynny ail-ddatganodd

bwysigrwydd cael CDLI cyfredol er mwyn gweithredu blaenoriaethau datblygu lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol ar y lefel leol.

1.9 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd, yn y cyfnod yn union wedi Covid-19, meysydd polisi penodol ddylai fod yn ffocws ystyriaeth a gweithredu, er mwyn bod yn gatallydd ar gyfer adferiad ar draws pileri datblygu cynaliadwy. Mae'r ystyriaethau hyn yn perthyn i un o dri chategori:

1. Beth oedd ein profiad o effeithiau uniongyrchol cyfnod clo Covid-19 a'r newidiadau cadarnhaol parhaol y mae angen inni eu gweld ar waith ac fel rhan o ddatblygiadau newydd.

2. Y gwersi a ddysgom dros y cyfnod hwn a sut allwn helpu gwneud lleoedd yn fwy cydnherth ac addasadwy wrth wynebu pandemigau eraill, pe baent yn digwydd.

3. Cynorthwyo'r gwaith adfer wedi'r pandemig ac wedi i gyfyngiadau gael eu llacio i sicrhau eu bod yn elwa pob rhan o gymdeithas ac yn ein helpu dadgarbonediddio, mynd i'r afael â newid hinsawdd, dadwneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella iechyd a llesiant cyffredinol.

1.10 Amlygir 8 mater yn y ddogfen sy'n dod â meysydd polisi unigol at ei gilydd i sicrhau mai'r camau a gymerwn yw'r rhai mwyaf effeithiol. Yr 8 mater yw:

- Aros yn lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer ac ail-ddarganfod ffyrdd o deithio
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol – anadl einioes dros y clo
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth i'r dyfodol
- Ail-ddefro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd awyr a sainweddau er mwyn gwella iechyd a llesiant

Pwrpas y Papur hwn

1.11 Mae'r papur hwn yn cyflwyno asesiad o'r goblygiadau sy'n deillio o Covid-19 i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin, ei sail tystiolaeth, polisiâu a strategaeth. Mae'n nodi pa rannau o sail tystiolaeth y CDLI allai fod angen eu diweddarau neu lle y mae angen ymchwil newydd. Mae hefyd yn amlinellu'r meysydd hynny lle y mae polisi'n debygol o newid wrth ymateb i effeithiau'r pandemig ac yn crynhoi'r effeithiau posib ar strategaeth gyffredinol y CDLI.

1.12 Dylid darllen y papur hwn law yn llaw â Chytundeb Cyflawni Diwygiedig yr Awdurdod (2020) a'i amserlen a'i gynllun ymglymiad cymunedol diwygiedig ar gyfer paratoi CDLI Diwygiedig Sir Gaerfyrddin.

Cyfnod Gwneud y Cynllun

1.13 Cyhoeddodd y Cyngor Sir ei CDLI Adneuo Diwygiedig 2018 - 2033 a dogfennau ategol (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd) ynghyd â dau Ganllaw Cynllunio Atodol drafft (CCA) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos statudol yn cychwyn ar y 29ain Ionawr 2020. Cafodd y cyfnod ei ymestyn

yn ddiweddarach am gyfnod ychwanegol o bythefnos, a'r ymgynghoriad yn gorffen ar y 27ain Mawrth 2020.

1.14 Er na chafodd y cyfnod 6 wythnos statudol cychwynol ei effeithio gan Covid-19 a'r cyfnod clo a ddilynodd, cafodd y pythefnos olaf (sef y cyfnod ymgynghori estynedig o 6 i 8 wythnos) eu heffeithio gan y symud graddol i'r cyfnod clo wrth i adeiladau gweinyddol y Cyngor gau (gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau gwasanaethu cwsmeriaid).

1.15 Dylid nodi fod yr holl ddigwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus a sesiynau galw heibio wedi cael eu cwblhau. O'r herwydd, ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau eu canslo ac nid amharwyd ar y gwaith ymgysylltu a drefnwyd. Fodd bynnag, roedd y gallu i weld dogfennau mewn adeiladau cyhoeddus yn ystod y bythefnos olaf yn gyfyngedig, er bod hynny'n dal yn bosib trwy gyfrwng adnodd ar-lein helaeth.

1.16 Oherwydd yr anawsterau a gafwyd yn ystod dyddiau olaf yr ymgynghoriad gwreiddiol, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad pellach o 3 wythnos ar y CDLI Adneuo Diwygiedig a'i ddogfennau ategol (AG ac ARhC). Agorodd yr ymgynghoriad hwn ar yr 11eg Medi ac mae'n cau am 4:30 ar yr 2il Hydref 2020.

1.17 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys mynediad trwy apwyntiad i Hybiau gwasanaethu cwsmeriaid y Cyngor ac i lyfrgelloedd cyhoeddus a llyfrgelloedd symudol oedd ar agor. Mae argaeledd dogfennau yn y lleoliadau hyn yn gydnaws â phroses y Cyngor ar gyfer ail-agor adeiladau cyhoeddus mewn ffordd raddol a gofalus. Mae hyn yn cynnig ymateb rhesymol i'r angen i wneud dogfennau ar gael tra'n cydnabod yr angen diamod i adlewyrchu cyngor y Llywodraeth, adlewyrchu gofynion ymbellhau cymdeithasol a diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd gweithwyr y Cyngor.

1.18 Cynhyrchodd yr ymgynghoriad ar y CDLI Adneuo lefel arwyddocaol o ddiddordeb ac fe dderbyniwyd nifer o sylwadau. Mae'n anorfod felly, ac wrth ymateb i dystiolaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys yr hyn a ddeilliodd o Covid-19), y byddwn yn cynnig newidiadau i'r Cynllun. O'r herwydd, byddwn yn ymgynghori ar Newidiadau Ffocysedig. Cynhwyswyd y cyfnod hwn yn yr amserlen a nodwyd yn y CDLI Diwygiedig ynghyd â dyddiad diwygiedig ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

2. EFFAITH COVID-19

Effaith economaidd

2.1 Ni chafodd effeithiau Covid-19 eu dosbarthu'n wastad ar draws yr economi. Y sectorau gafodd eu heffeithio fwyaf yw bwyd/llety, manwerthu heb fod yn archebu trwy'r post a sectorau celfyddydau/hamdden. Mewn sectorau eraill fel adeiladu a gweithgynhyrchu, er y cafodd trefniadau yn y gweithle effaith, daw'r effaith fwyaf o'r gwmp gychwynol yn y galw ac adfer y galw a'r cadwyni cyflenwi sy'n ganolog i benderfynu pryd fydd yr ail-agor yn digwydd. Y sectorau sy'n cael eu heffeithio leiaf,

yn ogystal â'r sectorau hynny sydd wedi gorfod aros ar agor, yw'r sectorau hynny lle y mae gweithio gartref yn bosib a lle y cafodd ei effeithio lawer llai gan y cyfnod clo megis y sector cyhoeddus a chyfleustodau.

2.2 Ar lefel y DU mae bron i chwarter y gweithwyr wedi rhoi'r gorau i weithio ers i'r argyfwng ddechrau, a chafodd y mwyafrif eu rhoi ar ffyrlo yn hytrach na cholli eu swyddi. Gan fod y cynllun ffyrlo yn dod i ben ar ddiwedd mis Hydref mae llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyflogaeth ac adferiad economaidd i'r dyfodol. Mae'r ansicrwydd yn trosi o'r lefel genedlaethol i'r un sirol.

2.3 Er mwyn cael dealltwriaeth wybodus o'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin, aethpwyd ati i hel casgliad cychwynnol o dystiolaeth ar yr effaith ar fusnesau, diweithdra a'n trefi gwledig / prif drefi. Gofynnwyd hefyd i fusnesau a buddsoddwyr a fu'n weithgar yn Sir Gaerfyrddin am dystiolaeth i asesu a ydynt yn debygol o barhau i gynnal busnes yn y Sir i'r dyfodol. Amlinellir y canfyddiadau isod:

Busnes / Economi

2.4 Cynhaliwyd arolwg o fusnesau ar draws y Sir i asesu pa gymorth fyddent ei angen fwyaf wrth edrych i'r dyfodol. Ymatebodd cyfanswm o 574 o fusnesau ledled y Sir i'r arolwg. Ceir crynodeb isod o brif ganfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad:

a) Bu effeithiau negyddol pandemig COVID-19 yn arwyddocaol a phellgyrhaeddol i fusnesau Sir Gaerfyrddin. Cafodd rhychwant eang o fathau o fusnesau a diwydiannau cyfatebol eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig. Mae'r effeithiau hynny'n ymwneud yn bennaf â gostyngiad arwyddocaol mewn incwm, llai o gwsmeriaid, problemau gyda chadwyni cyflenwi a'r perygl o orfod rhoi'r gorau i fasnachu.

b) Mae llawer o'r busnesau a effeithiwyd waethaf yn y sectorau sy'n cael eu hystyried yn rhai pwysig i Sir Gaerfyrddin o ran cyflogaeth a/neu GVA. Mae'r economi ymwelwyr a'r sectorau bwyd a diod yn unig werth bron i £169 miliwn i economi Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu eu bod yn sectorau pwysig iawn i'r Sir. Clywsom yn uniongyrchol hefyd trwy'r arolwg am yr heriau y mae'r sector amaethyddol yn eu hwynebu. Gan fod ganddo gyniferydd lleoliad o 5.64 (sy'n arwydd o gryfder sylweddol) a GVA o bron i £63 miliwn, dylid cynnig cefnogaeth ddigonol i'r sector hollbwysig hwn.

c) Nid yw llawer o fusnesau (pobl hunan-gyflogedig neu lawrydd yn bennaf) wedi gallu cael unrhyw fath o gymorth ariannol. Dangosodd dadansoddiad fod llawer o fusnesau wedi wynebu rhwystrau wrth geisio cael cymorth, gan y barnwyd nad oeddent yn gymwys ar gyfer y cynnig presennol. Gellid dadlau, pe bai unrhyw gynlluniau cymorth ariannol eraill yn cael eu datblygu, mai'r busnesau hynny ddylai fod y cyntaf i elwa, yn enwedig os yw unrhyw un o'r busnesau hynny mewn sectorau sy'n cael eu hystyried yn rhai gwerth uchel.

d) Ni fydd y rhan fwyaf o fusnesau yn gallu gweithredu am fwy na thri mis os yw'r sefyllfa bresennol yn parhau. Cafodd y gefnogaeth a gynigiwyd hyd yn hyn ei datblygu'n gyflym a chyda llai o adnoddau nac arfer yn aml iawn.

e) Y math mwyaf poblogaidd o gymorth yn y tymor byr a'r tymor hirach yw un ariannol, ar ffurf grantiau, benthyciadau a gohiriadau/gwyliau taliadau. Mae'r canfyddiadau yn creu her o ystyried ei bod yn anodd gweld ar hyn o bryd am faint hirach y bydd cyfyngiadau yn eu lle.

f) Byddai cymorth gyda hyrwyddo a hysbysebu gan y Cyngor Sir yn fuddiol i rai busnesau. Dywedodd busnesau yn y sectorau Twristiaeth, Hamdden a Lletygarwch yn bennaf y byddai hysbysebu a hyrwyddo rhad ac am ddim yn eu helpu i ail-adeiladu.

g) Mae'r Sir yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd lle y gallai effeithiau'r pandemig gael eu teimlo'n waeth.

h) Mae rhai busnesau yn rhagweld y byddant yn wynebu heriau sgiliau oherwydd y pandemig, a dywedodd y rhan fwyaf mai ym meysydd sgiliau digidol a TG y bydd y rhan fwyaf o'r diffygion hyn.

i) Mae'n ddiamau y bydd y tirwedd sgiliau yn dioddef oherwydd y pandemig. Mae'r rhan fwyaf o swyddi a gollir yn debygol o fod ar lefel sgiliau is gan fod y swyddi hyn yn tueddu bod yn rhai rhan-amser, cyflogau isel a mwy ansefydlog.

Diweithdra yn Sir Gaerfyrddin

2.5 Mae dadansoddiad o nifer y bobl a hawliodd fudd-daliadau diweithdra yng Nghymru yn dangos, rhwng mis Mawrth ac Ebrill (mis llawn cyntaf y cyfnod clo), fod 104,869 o hawlwr o gymharu â 58,576 ym mis Mawrth. Golygodd hynny fod y gyfradd hawlwr wedi codi o 3.9% i 6.8%, sy'n cymharu'n negyddol â chyfartaledd y DU, sef 5.8%.

2.6 Mae'r tabl isod yn cynnig manylion lefelau hawlwr ym mis Ebrill 2020 o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r tueddiadau'n amlwg ac maent yn arwydd amlwg o effeithiau'r pandemig. Mae'r ffigyrau a amlygwyd yn y paragraff blaenorol yn ein galluogi i gasglu fod y codiadau sylweddol a welwyd yn Sir Gaerfyrddin wedi digwydd yn bennaf oherwydd y pandemig.

Ardal	Lefel		Cyfradd	
	Ebr 2019	Ebr 2020	Ebr 2019	Ebr 2020
Sir Gaerfyrddin	2,420	5,495	2.2	5.0
Cymru	53,770	104,305	2.8	5.4
DU	1,106,610	2,117,360	2.7	5.1

2.7 Mae'n ymddangos fod cyfradd hawlwy'r Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n gadarnhaol gyda'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae dadansoddiad manylach yn dangos mai Sir Gaerfyrddin welodd y cynnydd mwyaf (2.8) yn y gyfradd hawlwy'r o gymharu â chynnydd o 2.6 a 2.4 ar gyfer Cymru a'r DU yn eu tro. Mae cyfanswm hawlwy'r wedi cynyddu 127% yn Sir Gaerfyrddin, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cynnydd cyfatebol a welwyd ar lefelau Cymru a'r DU, (94% a 91% yn eu tro).

2.8 Mae sawl factor y gellid eu priodoli i'r tueddiadau hyn. Nodweddir economi Sir Gaerfyrddin gan gyfran uwch na'r cyfartaledd o unigolion hunan-gyflogedig (12.4% o gymharu â 9.6% yng Nghymru). Mae tystiolaeth ar lawr gwlad yn awgrymu y bu'r pecyn cefnogaeth ar lefel genedlaethol yn llai ac yn anoddach manteisio arno (oherwydd cymhwysedd ac amseroldeb) i'r unigolion hyn, a gorfodwyd nifer i hawlio budd-daliadau diweithdra. Mae'n bosib felly mai llawer o'r hawlwy'r ychwanegol hyn yw'r bobl a fethodd cael gfael ar unrhyw fath arall o gymorth ariannol.

2.9 Mae'r sectorau hynny a orfodwyd i 'gau' oherwydd y pandemig yn cynnig cyflogaeth i tua 25,000 o bobl yn Sir Gaerfyrddin (sef 37% o'r gweithlu cyfan). Mae'n realistig felly i awgrymu, er y cafodd cyfran ohonynt eu rhoi ar ffyrlo (ac mae amcangyfrifon yn seiliedig ar fodolau yn awgrymu fod 7,500 o unigolion yn elwa o'r cynllun ffyrlo yn Sir Gaerfyrddin), ei bod yn debygol mai'r 17,500 o bobl sy'n weddill yw'r unigolion hynny sy'n hawlio'r budd-daliadau hyn. Yr awgrym yw fod y ffigyrau hyn yn debygol o godi'n sylweddol dros y misoedd nesaf.

Trefi Gwledig

2.10 Cyn yr argyfwng presennol roeddem yn gweithio gydag ymgynghorwyr i ddatblygu cynlluniau i adfywio 10 o'n trefi gwledig – Llanymddyfri, **Sanclêr**, **Hendygywn ar Daf**, **Castellnewydd Emlyn**, **Talacharn**, Cwmaman, Llanybydder, Cydweli, Llandeilo a Cross Hands – o dan Strategaeth Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen. Bwriad y cynlluniau twf hyn oedd edrych ymlaen 10 mlynedd a chytuno syniadau a blaenoriaethau newydd mewn partneriaeth â'r busnesau. Cafodd yr angen am y cynlluniau hyn eu tanlinellu fwy fyth gan yr heriau economaidd a grëwyd gan y pandemig. Dangosir effeithiau economaidd disgwylidig y Coronafeirws ar 5 o'r 10 Tref mewn llythrennau tywyll. Mae'r prif ganfyddiadau cychwynnol ar gyfer y 5 tref yma'n cynnwys:

- Ar draws y pum tref, cyflogir 35% o'r gweithlu (2,330 o bobl) mewn galwedigaethau y bernir eu bod fwyaf mewn perygl (gweinyddol, hamdden, gwasanaethu cwsmeriaid, elfennol).
- Pe bai un o bob pump (466) o'r gweithluoedd oedd fwyaf mewn perygl yn colli eu swyddi, byddai diweithdra yn codi 70%.
- Yn Hendygywn ar Daf (26%) a Sanclêr (27%) y mae'r lefelau uchaf o reolwyr a gweithwyr proffesiynol, sy'n golygu fod mwy o gapasiti i weithio gartref ac sy'n cael eu hystyried yn alwedigaethau risg is.
- Mae 20% o weithwyr ar draws y pum tref yn hunan-gyflogedig ac maent yn cael eu hystyried yn fwy tebygol o golli incwm yn sydyn, ac weithiau yn gyfangwbl.

- Mae dros 40% o fusnesau yn y bum dref mewn sectorau sydd wedi cau (bwytaï, tafarnau, caffis, manwerthu heb fod yn fwyd ac ati)
- Mae 50 o fusnesau bwyd a diod a 100 o ddarparwyr llety yn debygol o fod wedi cau ar draws y bum dref, ac mae Talacharn wedi dioddef yn waeth nac eraill.
- Mae sefyllfa'r diwydiant amaeth yn debygol o effeithio'n waeth ar y bum dref gan fod cyfran uwch o bobl yn gweithio ym myd amaeth.

2.11 Mae adolygiad o effaith Covid-19 ar y 5 tref arall yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn bo hir.

Canol Trefi

2.12 Ar hyn o bryd, mae effeithiau economaidd argyfwng Covid-19 yn ansicr iawn, sy'n ei gwneud yn anodd cael darlun clir o'r effaith ar ein prif drefi hyd yn hyn, sef Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli. Mae'r sector manwerthu yn fregus wrth i siopau gau a phatrymau galw defnyddwyr newid. Bydd angen ymyriadau a chyfeiriad clir gan yr holl randdeiliaid er mwyn blaenoriaethu strategaethau cymorth allweddol i sicrhau bod canol trefi yn ail-adeiladu wedi argyfwng Covid-19.

2.13 Ymhlith y materion allai effeithio canol ein trefi mae:

- Gwella camau i sicrhau mynediad / ymbellhau cymdeithasol ynghanol ein trefi,
gan gynnwys cysylltiadau rhwng safleoedd tu allan i'r dref a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus i'r trefi.
- Denu mwy o siopwyr i bob rhan o'r dref.
- Lleihau nifer y siopau gwag ynghanol y dref.
- Darparu dulliau masnachu eraill i fusnesau ynghanol ein trefi craidd (h.y. cyflenwi nwyddau, gwerthu ar-lein)
- Materion trafndiaeth gyhoeddus – osgoi tagfeydd.
- Safleoedd diffaith / adeiladau gwag.
- Ystyried mentrau cymunedol a rôl y trydydd sector yn ail-adeiladu'r dref.
- Darparu Cymorth Busnes – siambr fasnach, mentrau hunan-gymorth fel partneriaethau canol tref.
- Yr angen i frandio'r dref yn effeithiol a datblygu strategaeth farchnata a thwristiaeth effeithiol.
- Yr angen am gymorth ariannol i fusnesau hen a newydd. Cryfhau caffael lleol / cadwyni cyflenwi lleol.

2.14 Mae Centre for Towns, mudiad annibynnol sy'n darparu ymchwil a gwaith dadansoddol ar nifer o faterion yn effeithio ein trefi, wedi bod yn edrych yn ddiweddar ar effeithiau pandemig COVID-19 ar drefi a dinasoedd ledled gwledydd Prydain. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos fod Llanelli yn yr 20 tref waethaf yng ngwledydd Prydain am amddifadedd di-amod ac mae o'r herwydd yn brin o'r gwynwch angenrheidiol i wynebu COVID-19.

2.15 Mae'n hollbwysig ein bod yn helpu cymaint o'n busnesau canol tref i fynd yn ôl i fasnachu'n ddiogel cyn gynted ag y gallwn. Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni greu amgylcheddau diogel ynghanol ein trefi a galluogi symud synhwyrol fydd yn rhoi hyder i ddefnyddwyr, trigolion a busnesau ail-afael yn eu harferion siopa unwaith eto.

Hyder Datblygwyr / Buddsoddwyr

2.16 Cysylltwyd â thua 15 o ddatblygwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynghylch eu busnesau a sut y mae Covid 19 wedi effeithio arnynt. Canolbwyntiodd y trafodaethau gyda datblygwyr ar 4 brif thema (ceir crynodeb o'r adborth yn Atodiad 1):

- Effeithiau tymor byr (ar hyn o bryd ac yn y 6 mis nesaf)
- Y prif gyfyngiadau a ddisgwylir wrth edrych ymlaen
- Y prif gyfleoedd wrth edrych ymlaen
- Y prif ymyriadau sydd eu hangen yn y sectorau cyhoeddus a phreifat

Effeithiau Amgylcheddol

2.17 Mae Covid –19 wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd, yn enwedig felly yn ystod y cyfnod clo, yn bennaf felly o ran allyriadau carbon.

2.18 Daeth y gallu i ddefnyddio llecynnau tir glas yn bwysicach i bobl a chymunedau, ac felly hefyd y cyd-destun amgylcheddol maen nhw'n byw ynddo wrth i rôl creu lleoedd a seilwaith gwyrdd ddod yn ystyriaeth fwyfwy pwysig. Rhaid cofio hefyd am yr effaith a gafodd y pandemig ar bobl o ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol.

3. Sail Tystiolaeth – goblygiadau Covid-19

3.1 Mae'r canlynol yn adlewyrchu prif feysydd sail tystiolaeth yr awdurdod lle y mae angen i effeithiau Covid-19 (yn gyfan neu'n rhannol) gael eu hail-asesu neu eu diweddarau.

Cyflogaeth a'r Economi

3.2 Bydd angen adolygiad o'r sail tystiolaeth presennol o ran gweithgarwch economaidd i'r dyfodol yn deillio o'r argyfwng a sut y bydd hyn yn effeithio sectorau gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys effeithiau disgwylidiedig Covid. Fodd bynnag, mae'n amlwg na ellir cael unrhyw sicrwydd o ran mesur a deall effaith y pandemig. Yn hynny o beth, nid oes llawer o ddata na gwybodaeth ar gael i gyfrannu at neu sefydlu tuedd gadarn neu yn wir i ragfynegi hyd a lled y dirwasgiad economaidd. Rhaid cofio er hynny am yr uchod, fydd yn bwydo i mewn i ac yn cyfrannu at Gynllun Adfer y Cyngor a'r dystiolaeth economaidd sy'n sail i'r Cynllun.

3.3 Mae rôl y sector twristiaeth yn yr economi leol yn cael ei gydnabod. Mae angen dealltwriaeth o unrhyw newidiadau mewn patrymau cyflogaeth a gofynion ar y sector yn deillio o'r argyfwng.

3.4 Wrth ddatblygu'r ddealltwriaeth ehangach hon o unrhyw effeithiau, rhoddir ystyriaeth i Gynllun Adfer y Cyngor ac unrhyw ymyriadau/strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Manwerthu a Chanol Trefi

3.5 Mae angen deall ac adlewyrchu'r ffaith fod Strydoedd Mawr a gweithgarwch manwerthu yn parhau i newid. Er na wyddom lawer am effeithiau Covid-19 hyd yn hyn, bydd angen tystiolaeth i edrych ar olwg newydd y sector manwerthu ac effaith hynny ar ganol ein trefi.

3.6 Rhoddir ystyriaeth i 'Adeiladu Lleoedd Gwell, Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair, Creu Lleoedd ac adfer wedi Covid-19' (Gorffennaf 2020).

3.7 Wrth ddatblygu'r ddealltwriaeth ehangach hon o unrhyw effeithiau, rhoddir ystyriaeth i Gynllun Adfer y Cyngor ac unrhyw ymyriadau/strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Poblogaeth a Thai

3.8 Dylid nodi fod bwriad paratoi rhagor o dystiolaeth fel rhan o'r angen parhaus i gael gwybod am y newidiadau poblogaeth diweddaraf a'r gofynion o ran aelwydydd sy'n deillio o hynny. Bydd angen rhoi sylw pellach i'r ffaith fod Ystadegau Cymru wedi tynnu'n ôl eu rhagfynegiadau poblogaeth ac aelwydydd gwreiddiol o 2018, oherwydd camgymeriad ar batrymau mudo a'r angen oherwydd hynny i'w hail-brosesu.

3.9 Hefyd, bydd angen i'r dystiolaeth adlewyrchu effeithiau Covid-19 i'r graddau y gellir eu rhagfynegi ar hyn o bryd. Bydd angen ystyried effaith bosib Covid-19 ar yr angen am dai fforddiadwy, yn enwedig felly os oes heriau economaidd sy'n arwain at fwy o ddiweithdra neu ansefydlogi patrymau cyflogaeth. Hefyd, efallai y bydd gwaith i weld a oes unrhyw dueddiadau mudo, yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig, yn deillio o'r ymateb i'r cyfnod clo.

3.10 Mae'r CDLI Adneuo Diwygiedig a'i strategaeth yn ceisio sicrhau a galluogi mynediad at ystod a dewis o gartrefi yn ogystal â tharged ar gyfer darparu tai fforddiadwy – sy'n allweddol wrth fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd ac adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth. Cydnabyddir y bydd gan dai ran bwysig i'w chwarae yn yr adferiad economaidd – bydd angen tystiolaeth i adlewyrchu rhaglen adfer y Cyngor a'r dyheadau adfywio a strategol ehangach, yn enwedig felly o ran darparu tai fforddiadwy, diwallu'r angen am dai a darparu cyfleoedd i gadw pobl ifanc a chreu Sir ddeniadol i'n pobl ifanc ddod yn ôl iddi.

Creu Lleoedd, Llesiant a Seilwaith Gwyrdd

3.11 Mae'r cyfnod clo wedi pwysleisio gwerth a phwysigrwydd creu lleoedd a darparu llecynnau agored/tir glas hygyrch ar gyfer iechyd a llesiant a hamdden. Mae hyn yn rhan hanfodol o'n pwrpas creiddiol i adeiladu cymunedau cynaliadwy a

chydnerth. Atgyfnerthwyd rôl ganolog creu lleoedd yn llythyr y Gweinidog, a nododd mai'r CDLI yw'r prif gyfrwng cyflawni.

Newid Hinsawdd

3.12 Mae'r CDLI Adneuo yn rhoi cryn bwyslais ar yr ymateb i Newid Hinsawdd trwy greu casgliad rhagweithiol o bolisiau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys pwyntiau gwefru trydanol ar gyfer cerbydau fel rhan o ddatblygiadau newydd.

3.13 Efallai fod mwy o le i archwilio'r berthynas a'r gydnawsedd gyda'r agenda digarbon. Caiff y potensial ar gyfer defnyddio llai o geir yn deillio o weithio gartref/ystwyth mewn patrymau cymudo ei nodi, ac mae cyfleoedd i adeiladu ar atebion teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy integredig eisoes wedi'u gwreiddio yn y Cynllun.

Seilwaith

3.14 Efallai y bydd rhaid rhoi ystyriaeth bellach i'r pwyslais cynyddol ar seilwaith digidol oherwydd y pwyslais ar weithio gartref/ystwyth. Os yn llwyddiannus, gallai'r camau arbrofol sy'n cael eu trefnu i gefnogi ein Strydoedd Mawr a galluogi ymbellhau cymdeithasol ddod yn rhai parhaol.

Hyfywedd Tai

3.15 Er nad yw effeithiau tymor byr, canol ac yn wir tymor hir y pandemig ar y diwydiant codi tai yn hysbys eto, bydd y dystiolaeth ar hyfywedd tai yn cael ei diweddarau i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Dylid nodi er hynny bod yr effaith economaidd yn ansicr, yn enwedig felly o gofio'r posibilrwydd o amharu pellach oherwydd ail don o heintiadau.

Sail Tystiolaeth – Goblygiadau heb fod yn rhai Covid-19

3.16 Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i/diweddarau'r agweddau canlynol ar sail tystiolaeth y Cynllun, gan gynnwys y canlynol. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gallai newid wrth i'r goblygiadau yn deillio o sylwadau a thystiolaeth arall a newidiadau cyd-destunol ymddangos.

Poblogaeth a Thai

3.17 Diweddariad ar y dystiolaeth ddemograffig wrth ymateb i ragfynegiadau poblogaeth diwygiedig Llywodraeth Cymru yn 2018.

Asesiad Ynni Anewyddadwy

3.18 Diwygiad i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd a'r gwaith a wnaed i baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'i bolisiau a darpariaethau ar Ynni Anewyddadwy.

Papur Priffyrdd

3.19 Adeiladu ar y dystiolaeth bresennol a rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Tasglu Gwledig: Cynlluniau Twf Deg Tref

3.20 Fel rhan o ganfyddiadau'r tasglu gwledig mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu cynlluniau twf ar gyfer deg tref amlwg yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin wledig. Bydd cyhoeddi'r dogfennau hyn yn cryfhau a chyfoethogi ymhellach ddyheadau'r Cyngor ar gyfer ein hardaloedd gwledig.

Astudiaeth Capasiti Tirwedd

3.21 Cefnogi cymhwyso a gweithredu polisiau tirwedd y CDLI Adneuo Diwygiedig.

3.22 Mae'r canlynol yn cyflwyno asesiad a sylwadau ar effeithiau Covid-19 o ran y sail tystiolaeth presennol ar gyfer y CDLI Diwygiedig.

Tystiolaeth/dogfen	Sensitifrwydd	Gweithred
Adeiladu Consensws		
Llyfr Cofnodion y Panel Ymgynghorol Rhifynnau 1 a 2	Dim	Dim angen gweithredu
Cyfarfodydd y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol– Adroddiadau a Phapurau	Dim	Dim angen gweithredu
Gweithdy Cynghorau Tref a Chymuned	Dim	Dim angen gweithredu
Tystiolaeth gefndir		
Rhagfynegiadau Demograffig (Atodiad Medi 2019)	Sensitif	Bydd angen diweddariad i ystyried rhagfynegiadau is genedlaethol Llywodraeth Cymru ac i ystyried unrhyw newidiadau tystiolaethol o ran Covid-19, gan gynnwys newidiadau i batrymau mudo.
Rhagfynegiadau Democraidd (Hyd 2018)	Gweler uchod	Gweler uchod
AGA Caeau Mynydd Mawr – Papurau Tystiolaeth CCA Diwygiedig	Dim	Dim angen gweithredu
Astudiaeth Economaidd Dwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Hydref 2019)	Sensitif	Bydd angen adolygiad o'r sail tystiolaeth presennol o ran gweithgarwch economaidd i'r dyfodol yn dilyn yr argyfwng a sut fydd hyn yn effeithio ar sectorau gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys effeithiau disgwylidig o Covid.

Asesiad Ynni Adnewyddadwy	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Sylwer: Cydnabyddiaeth o rôl ynni adnewyddadwy fel rhan o'r agenda hinsawdd ehangach wrth ymateb i Covid-19.
Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Gaerfyrddin (Tach 2019)	Dim	Dim angen gweithredu
Astudiaeth Anghenion Gwledig Sir Gaerfyrddin	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth pe bai tystiolaeth yn dod ar gael o ran mudo i gymunedau gwledig.
Papur Cefndir ar Drafnidiaeth 2020	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Sylwer: Cydnabyddiaeth o rôl teithio llesol fel rhan o greu dyfodol cynaliadwy a chreu lleoedd wrth ymateb i Covid-19.
Crynodeb o'r Farchnad Dai ar gyfer Sir Gaerfyrddin (Rhag 2019)	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Cedwir golwg ar y sefyllfa er mwyn sylwi ar newidiadau canlyniadol yn deillio o newidiadau i elfennau o'r sail tystiolaeth.
Asesiad Effaith ar y Gymraeg 2019	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Cedwir golwg ar y sefyllfa er mwyn sylwi ar newidiadau canlyniadol yn deillio o newidiadau i elfennau o'r sail tystiolaeth.
Adroddiad Rhagarweiniol ar Hyfywedd Ariannol (Tach 2019)	Sensitif	Bydd angen i dystiolaeth ymateb i newidiadau economaidd yn deillio o'r argyfwng, ac yn enwedig felly effeithiau ar y sector adeiladu tai, llinellau cyflenwi a phrisiau tir.
Asesiad o Lecynnau Tir Agored	Dim	Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Sylwer: Cydnabyddiaeth o rôl llecyn agored a Seilwaith Gwyrdd fel rhan o agenda Creu Lleoedd wrth ymateb i Covid-19.
Diweddariad ar yr Astudiaeth Fanwerthu 2015	Sensitif	Cafodd y sector manwerthu (cymharu yn enwedig) ei daro'n galed gan y pandemig a bu'n rhaid i lawer o siopau heb fod yn hanfodol gau am gyfnodau hir yn ystod y clo a bu cwsmeriaid yn araf yn dychwelyd yn ystod y cyfnod ail-adeiladu. Cafodd y sector hamdden a diwylliannol eu bwrw hefyd, gan gynnwys tafarnau a bwytai

		<p>ynghyd â chanolfannau cymunedol ac adloniant.</p> <p>Mae angen diweddaru'r astudiaeth i adlewyrchu canlyniadau Covid ynghyd â'r newidiadau dilynol i dystiolaeth gofod llawr ar draws y sectorau cymharu a chyfleustra. Cydnabyddiaeth o rôl canol trefi fel y nodwyd yn PCC ac yn rhan o ymateb ail-adeiladu Llywodraeth Cymru wedi Covid.</p>
Adolygiadau o Dir Cyflogaeth 2016 – 2018	Sensitif	<p>Mae'r ATCau yn ddull monitro blynyddol – bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol fesur unrhyw effeithiau wedi Covid.</p>
